

GORCHMYNION CAU O DAN  
DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF 1990

Canllawiau i ymgeiswyr

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	3
Sut i benderfynu pa Orchymyn sydd ei angen arnoch o dan y Ddeddf.....	3
Amserlen ar gyfer prosesu'ch cais .....	4
Cyn ichi ddechrau.....	4
1    Y gweithdrefnau.....	4
Y Cam Ymgynghori .....	4
Gwneud Gorchymyn.....	5
Ymchwiliad Cyhoeddus .....	5
Lleihau faint o amser a gymerir i brosesu'ch cais.....	6
2    Y ffurflen gais a dogfennau amgaeedig .....	6
Caniatâd Cynllunio a Chynlluniau.....	7
Cynllun y gorchymyn arfaethedig .....	7
Cynllun trefn priffyrdd .....	8
Cynllun ffiniau cymeradwy'r safle .....	8
Dogfennau eraill i'w hamgáu .....	8
3    Unrhyw gwestiynau?.....	9

## Cyflwyniad

Nod y ddogfen hon yw rhoi esboniad i ymgeiswyr am y gofynion a'r gweithdrefnau ar gyfer cau priffyrdd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf").

Nid oes statws cyfreithiol i'r nodiadau hyn. Am ragor o wybodaeth am gau priffyrdd cysylltwch â'r Gangen Gorchmynion. Mae'r cyfeiriad ar ddiwedd y canllawiau hyn.

### **Sut i benderfynu pa Orchymyn sydd ei angen arnoch o dan y Ddeddf**

#### **a) Adran 247**

Mae gorchmynion o dan Adran 247 o'r Ddeddf yn awdurdodi diddymu (cau) unrhyw briffordd er mwyn ei gwneud yn bosibl i ymgymryd â datblygiad yn unol â chaniatâd dilys a pherthnasol.

Gall y Gorchymyn hefyd ddarparu ar gyfer priffyrdd newydd/wedi'u gwella cyhyd ag y bo'r rhain hefyd yn rhan o'r caniatâd cynllunio.

Er mwyn i Orchymyn cau gael ei brosesu o dan Adran 247 neu 248 mae'n rhaid ichi gael caniatâd cynllunio yn gyntaf, oni bai eich bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Adran 253 o'r Ddeddf. Am ragor o wybodaeth am Adran 253 ewch i dudalen 6.

Mae'n rhaid i unrhyw briffordd sy'n cael ei chau fod yn rhan o ddatblygiad a bod o fewn ffin y caniatâd cynllunio neu fod yn un o amodau'r caniatâd cynllunio.

#### **b) Adran 257**

Os bydd eich caniatâd cynllunio ond yn ei gwneud yn ofynnol i gau llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig (na ellir eu defnyddio ar gyfer mynediad i gerbydau) yna dylech wneud cais i'r awdurdod lleol am Orchymyn o dan adran 257 o'r Ddeddf.

Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A, paragraff 17 Cylchlythyr 5/93 y Swyddfa Gymreig ar "Hawliau Tramwy Cyhoeddus".

#### **c) Adran 248**

Dylid cyflwyno ceisiadau o dan yr adran hon os bydd angen cau priffordd o ganlyniad i greu priffordd newydd fel rhan o ddatblygiad.

Gall hefyd ddarparu ar gyfer priffyrdd newydd/wedi'u gwella cyhyd ag y bo'r rhain hefyd yn rhan o'r caniatâd cynllunio.

#### **d) Adran 249**

Pan fydd **awdurdod lleol** yn penderfynu gwella amwynder rhan o'i ardal drwy ddiddymu hawliau cerbydol a chreu ardal i gerddwyr yn unig o fewn ei fwrdeistref neu ei fwrdeistref sirol, mae'n rhaid iddo wneud cais i Lywodraeth Cymru am Orchymyn o dan adran 249 o'r Ddeddf. Gall trydydd parti (asiant) wneud ceisiadau ar ran awdurdod lleol ond mae'n rhaid bod penderfyniad yn bodoli.

## **Amserlen ar gyfer prosesu'ch cais**

Ar ôl cytuno ar fanylion y cais, dylai gymryd tua 4-5 mis, gobeithio, i wneud Gorchymyn ar yr amod nad oes unrhyw wrthwynebiadau.

Os bydd gwrthwynebiadau ac nad oes modd eu datrys, fel arfer bydd angen cynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus. Mewn achosion o'r fath, bydd y cyfnod cyn y gwneir penderfyniad dipyn yn hwy, sef 12 mis neu fwy o bosibl.

Gweler tudalen 5 am ffyrdd o leihau'r amser a gymerir i brosesu'ch cais.

## **Cyn ichi ddechrau**

Noder na allwch gau na dargyfeirio priffordd nes bod yr hysbysiad sy'n cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gorchymyn wedi'i gyhoeddi. Nid yn unig y mae'n drosedd rhwystro neu ymyrryd â phriffordd cyn y gwneir hyn, ond gall hefyd ei gwneud yn amhosibl i Lywodraeth Cymru wneud y Gorchymyn. Dylai ymgeiswyr hefyd nodi, ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad sy'n datgan bod y Gorchymyn wedi'i wneud, y bydd cyfnod o chwe wythnos wedyn i'w herio yn yr Uchel Lys. Bydd unrhyw waith a ddechreuir yn ystod y cyfnod hwn ar fenter yr ymgeisydd ei hun, gan y gall her o'r fath beri rhoi terfyn ar y gwaith/adfer priffyrdd.

## **1 Y gweithdrefnau**

Ceir y gweithdrefnau ar gyfer prosesu'ch cais o dan adrannau 247, 248 neu 249 yn adran 252 o'r Ddeddf, sef:

### **Y Cam Ymgynghori**

Ar ôl ichi gytuno ar fanylion eich cais â'r Gangen Gorchymynion, caiff y Gorchymyn drafft a'r hysbysiad cyhoeddus eu paratoi. Bydd y ddwy ddogfen yn cynnwys manylion eich cynnig a bydd yr hysbysiad hefyd yn rhoi 28 diwrnod i'r cyhoedd gyflwyno gwrthwynebiad ynglŷn â cholli'r hawl tramwy cyhoeddus.

Caiff y Gorchymyn a'r hysbysiad eu hanfon at y rhai y gall y cynnig i gau priffordd effeithio arnynt neu'r rhai a all fod â buddiant ynddo. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau cyfleustodau, ymgymerwyr statudol a'ch awdurdod lleol.

Fel rhan o'r broses o gau priffordd byddwn yn gofyn i'r ymgeisydd drefnu i gopïau o'r hysbysiad gael eu gosod mewn manau amlwg ar bob pen o'r briffordd (priffyrdd) ac ati sydd i'w chau neu i'w cau. Byddwn hefyd yn gofyn am i'r hysbysiadau fod yn eu lle yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod i gyflwyno

gwrthwynebiad.

Caiff copi o'r hysbysiad ei gyhoeddi mewn o leiaf un papur newydd lleol ac yn y London Gazette.

Bydd copïau o'r Gorchymyn ar gael mewn swyddfa leol (e.e. yr awdurdod lleol, llyfrgell leol neu adeilad cyhoeddus arall) ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru er mwyn i'r cyhoedd gael ei weld.

### **Gwrthwynebiadau**

Rhaid i'r ymgeisydd ddatrys unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig. Felly rydym yn anfon copi ohonynt atoch fel y gallwch gyd-drafod â'r gwrthwynebwyr gyda'r nod o'u datrys.

Rydym bob amser yn annog ymgeiswyr a gwrthwynebwyr i ddod i gytundeb. Pan na fydd modd datrys gwrthwynebiadau, *fel arfer* bydd angen cynnal ymchwiliad cyhoeddus. *Weithiau* mae'n bosibl hepgor hwn (pan na fydd unrhyw *wrthwynebwyr statudol* megis cwmnïau cyfleustodau, ymgymerwyr statudol ac awdurdodau lleol) a phan fydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ("y Gweinidog") yn fodlon y gellir hepgor cynnal ymchwiliad o'r fath o dan amgylchiadau arbennig yr achos e.e. lle cafodd yr un materion eu hystyried yn llawn mewn apêl cynllunio neu lle mae'r gwrthwynebiadau'n amlwg yn amherthnasol.

### **Gwneud Gorchymyn**

Dim ond pan fydd y meini prawf canlynol wedi'u bodloni y bydd y Gorchymyn Cau yn cael ei wneud:

- mae unrhyw wrthwynebiadau wedi cael eu tynnu'n ôl ac mae'r Gangen Gorchymynion wedi derbyn copi o bob un o'r llythyrau tynnu'n ôl; neu
- mae ymchwiliad cyhoeddus (neu mewn rhai amgylchiadau, cyfnewid sylwadau ysgrifenedig) wedi'i gynnal ac mae'r llythyr penderfynu yn nodi y caiff y Gorchymyn ei wneud.

Ar ôl i hyn gael ei wneud, caiff y Gorchymyn ei awdurdodi a chaiff hysbysiad cyhoeddus ei baratoi. Bydd yr hysbysiad yn nodi bod y Gorchymyn wedi'i wneud ac yn rhoi chwe wythnos i bartïon sy'n tybio iddynt gael cam herio gwneud y Gorchymyn yn yr uchel lys. Mae'r Gorchymyn ond yn ddilys cyhyd ag y bydd y caniatâd cynllunio a nodir yn y Gorchymyn yn ddilys. Yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am y briffordd nes bod y datblygiad yn digwydd a'r gorchymyn cau yn cael ei weithredu.

**Ni ddylai'r datblygwr gau'r ardaloedd dan sylw nes bod yr hysbysiad sy'n cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud y Gorchymyn wedi'i gyhoeddi.**

### **Ymchwiliad Cyhoeddus**

Os bydd angen Ymchwiliad Cyhoeddus, yna caiff hwn ei drefnu gan yr

Arolygiaeth Gynllunio. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cysylltu â phob parti â diddordeb i roi manylion yr Ymchwiliad iddynt ac yn ymdrin â'r holl ohebiaeth o adeg cyhoeddi'r Ymchwiliad nes bod adroddiad yr Arolygydd yn cael ei gyflwyno.

Ar ôl i'r Ymchwiliad gael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gwneud ei (h)argymhellion i'r Gweinidog gan ystyried y dystiolaeth a roddwyd cyn ac yn ystod yr ymchwiliad.

Byddem yn disgwyl cael adroddiad yr Arolygydd o fewn tri mis i'r Ymchwiliad. Ar ôl iddo gael ei gyflwyno bydd y Gweinidog yn gwneud ei benderfyniad, gan ystyried argymhellion yr Arolygydd.

Caiff copïau o'r penderfyniad eu hanfon at yr ymgeisydd, y gwrthwynebwyd a phartion eraill â diddordeb. Caiff canllawiau eu rhoi i'r parti sy'n tybio iddo gael cam ar ei hawl i herio'r penderfyniad yn yr Uchel Lys

## **Lleihau faint o amser a gymerir i brosesu'ch cais**

Rhestrir isod sut y gallwch leihau faint o amser a gymerir i brosesu'ch cais.

- Os nad ydych eisoed wedi gwneud hyn ar gyfer y cais/cael caniatâd cynllunio dylech gysylltu â chwmnïau cyfleustodau yn ardal y briffordd y cynigir y dylid ei chau cyn cyflwyno'r ffurflen gais.
- Dylech sicrhau bod y ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn.
- Cadarnhewch fod y mesuriadau a roddir yn eich ffurflen gais yn union debyg i'r priffyrdd y cynigir y dylid eu cau ar y cynllun.
- Os bwriedir cau hawliau tramwy eraill yn ogystal â'r briffordd yna bydd angen disgrifiad ar wahân ar gyfer pob un. Bydd angen eu dangos hefyd ar y cynllun.
- Mae angen manylion unrhyw briffyrdd newydd neu ardaloedd i'w gwella fel rhan o'r caniatâd cynllunio.
- Lle y bo'n berthnasol, dylid sicrhau bod pob gwrthwynebydd yn anfon llythyr tynnu'n ôl i'r Gangen Gorchmynion cyn gynted ag y bo cytundeb.

## **2 Y ffurflen gais a dogfennau amgaeedig**

Dylech sicrhau bod y ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn. Os bydd manylion ar goll efallai y bydd oedi wrth brosesu'ch cais.

Yn ogystal â'ch enw a'ch cyfeiriad (ac enw a chyfeiriad eich asiant os ydych yn defnyddio un) byddai'n ddefnyddiol pe gallech gynnwys rhif ffôn yn ystod y dydd. Dylech hefyd sicrhau bod enw a chyfeiriad yr unigolyn y dylid anfon yr hysbysiadau ato i'w gosod ar y briffordd/priffyrdd wedi'u nodi'n glir.

Noder **nad** yw'n dderbyniol rhoi "Gweler y cynllun amgaeedig" wrth gwblhau

adran C o'r ffurflen gais. Rhaid rhoi disgrifiad manwl o bob priffordd. Rhaid mesur hyd a lled yn y man lletaf.

## **Caniatâd Cynllunio a Chynlluniau**

### **Adrannau 247 a 248**

Bydd angen copi o'r caniatâd cynllunio perthnasol arnom cyn y gallwn brosesu ceisiadau o dan adrannau 247 a 248. Lle mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i roi, fel arfer byddwn yn gofyn am dystiolaeth bod materion a gadwyd yn ôl wedi'u cymeradwyo cyn bwrw ymlaen â'r cais. Bydd angen copi o'r cynlluniau cymeradwy, yn enwedig *cynllun ffiniau cymeradwy'r safle* (ond nid gweddlluniau) hefyd.

### **Adran 253**

Yr unig reswm y byddem yn gallu dechrau prosesu cais o dan adrannau 247 a 248 cyn i ganiatâd cynllunio llawn gael ei roi yw os ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Adran 253 o'r Ddeddf. Mae Adran 253 yn gymwys:

- os mai awdurdod lleol neu ymgymerydd statudol (cwmni cyfleustod) yw'r datblygwr; neu
- mae'r caniatâd cynllunio yn destun apêl cynllunio neu mae wedi cael ei alw i mewn gan Weinidogion Cymru.

**Ni ellir gwneud y Gorchymyn nes bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer y datblygiad a'i fod wedi cael ei dderbyn gan y Gangen Gorchymynion.**

### **Adran 249**

Bydd angen copi o'r penderfyniad cyngor perthnasol arnom cyn y gallwn brosesu ceisiadau o dan adran 249. Bydd angen copi o'r cynlluniau cymeradwy hefyd.

## **Cynllun y gorchymyn arfaethedig**

Dylech sicrhau bod cynlluniau'r Gorchymyn arfaethedig a ddarparwyd yn bodloni'r meini prawf cyfarwyddyd ar gefn y ffurflen gais. Hefyd, nodwch y canlynol:

- bydd angen i'r cynllun fod yn seiliedig ar un o luniadau'r Arolwg Ordnans. Er ein bod yn argymhell y dylai'r cynllun fod o faint A4 neu A3 os oes modd ac wedi'i dynnu wrth raddfa o 1/1250, byddwn yn derbyn cynlluniau o feintiau a graddfeydd eraill ar yr amod eu bod yn bodloni gweddill y meini prawf a grybwyllir;
- bydd angen i'r cynllun ddangos yr holl briffyrdd presennol wedi'u labelu'n glir ac wedi'i farcio i ddangos y manylion cau;
- mae'n rhaid i leoliad y priffyrdd fod yn hawdd i aelodau'r cyhoedd ei

adnabod. Felly, mae'n bwysig bod digon o'r ardal o'i hamgylch yn cael ei dangos ar y cynllun a bod unrhyw dirnodau wedi'u nodi;

- mae'n hanfodol bod y mesuriadau a ddangosir ar y cynllun yn cyfateb i'r mesuriadau a roddir ar y ffurflen gais;
- os bwriedir darparu priffyrdd newydd neu wella priffyrdd sy'n bodoli eisoes *fel rhan o'ch caniatâd cynllunio* yna bydd angen dangos y rhain hefyd.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi os bydd angen ichi wneud unrhyw newidiadau.

## Cynllun trefn priffyrdd

Bydd angen copi o drefn bresennol y priffyrdd o fap Arolwg Ordnans cyfredol wrth raddfa o 1:1250 neu 1:500.

## Cynllun ffiniau cymeradwy'r safle

**Mae'n bwysig** bod cynllun ffiniau cymeradwy safle yn cael ei gyflwyno ynghyd â'r cais o dan adrannau 247 a 248. Bydd angen i'r cynllun ddangos ffin cymeradwy'r safle mewn coch a'r briffordd i'w chau mewn glas.

Diben hyn yw dangos a yw'r priffyrdd dan sylw o fewn neu'r tu allan i ffin y caniatâd cynllunio.

## Dogfennau eraill i'w hamgáu

### Rhwymedigaeth gynllunio adran 106 (os yw'n gymwys)

Lle y bo'n briodol, byddwn yn gofyn am gopi o unrhyw rwymedigaeth gynllunio berthnasol yr ymrwymwyd iddi o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

### Dogfennau Adran 253 perthnasol (os yw'n gymwys)

Os ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adran 253 o'r Ddeddf yna bydd angen cyflwyno'r dogfennau perthnasol.

### Copïau o ohebiaeth â chwmnïau cyfleustodau ac ymgwymerwyr statudol

Rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â'r cwmnïau cyfleustodau a'r ymgwymerwyr statudol yn ardal y briffordd y cynigir y dylid ei chau cyn cyflwyno'ch cais.

Mae'n ofynnol cysylltu â hwy fel rhan o'r broses a bod unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu hanfon atoch. Ni chaiff y Gorchymyn ei wneud nes ein bod yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig bod pob gwrthwynebiad wedi'i dynnu'n ôl, felly bydd yn arbed amser os cysylltwch â hwy yn gyntaf a dechrau unrhyw gyd-drafodaethau'n ddi-oed.

Ceir rhestr o'r ymgwymerwyr statudol mwyaf cyffredin ar yr ail dudalen o'ch ffurflen gais neu gallech gysylltu â'r awdurdod lleol yn yr ardal dan sylw er



mwyn sicrhau nad ydych wedi colli unrhyw rai.

### **Copïau o ohebiaeth â'r awdurdod priffyrdd**

Er y byddwch wedi llwyddo i gael caniatâd ar gyfer eich datblygiad, nid yw hyn yn golygu eich bod wedi cael cymeradwyaeth gan yr awdurdod priffyrdd o reidrwydd ac mae posibilrwydd y gallai wrthwynebu'ch cais.

Dylech amgáu copïau o ohebiaeth â'r awdurdod priffyrdd *gan gynnwys ei gymeradwyaeth ar gyfer y cynnig.*

### **3 Unrhyw gwestiynau?**

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn ag unrhyw ran o'ch ffurflen gais neu tra bydd eich gorchymyn yn cael ei brosesu yna cysylltwch â ni yn y Gangen Gorchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.